



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

ASESIAD LLESIANT



Y BENNOD DIWYLLIANNOL

CONTENTS

BETH YW LLESIANT DIWYLLIANNOL?	1
BETH RYDYN NI'N EI WYBOD AR HYN O BRYD AM GYFLWR LLESIANT DIWYLLIANNOL YN CNPT?	2
TREFTADAETH A'R CELFYDDYDAU	3
TREFTADAETH	3
GRWP IAU GWIRFODDOL / CYMDEITHASAU HANES	5
CANOLFAN CELFYDDYDAU PONTARDAWE	6
THEATR Y DYWYSOGES FRENHINOL	7
NEUADD GWYN	7
GWYLIAU A DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL	10
CERDDORIAETH DAWNS A DRAMA	10
LLYFRGELLOEDD	11
TREFTADAETH NATURIOL	11
NEWID YN YR HINSAWDD – TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL	13
YR IAITH GYMRAEG	13
CHWARAEON A GWEITHGAREDDAU CORFFOROL	17
AROLYGN CHWARAEON CYMRU	17
DARPARIAETH CHWARAE I BLANT A PHOBL IFANC	19
GWIRFODDOLI	21
CYMUNED	22
CREFYDD	24
SUT BYDD TUEDDIADAU'R DYFODOL YN EFFEITHIO	25
AR LESIANT DIWYLLIANNOL?	
Y CELFYDDYDAU A THREFTADAETH	25
YR IAITH GYMRAEG	25
CYMUNEDAU	25

BETH YW LLESIANT DIWYLLIANNOL?



Yng Nghymru, mae 'llesiant diwylliannol' wedi'i restru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fel un o'r meysydd mae cyrff cyhoeddus i'w gwella.

Mae'r Nod Llesiant ynghylch Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn disgrifio Cymru fel:

"Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden."

Mae Nod Llesiant Cymru sy'n Fwy Cyfartal yn disgrifio Cymru fel:

"Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys cefndir ac amgylchiadau sosio-economaidd)."

Mae Llesiant diwylliannol yn cyfrannu at gyflawni'r nodau hyn oherwydd ei fod yn cwmpasu gwerthoedd, credoau a rennir, arferion, ymddygiad a hunaniaeth. Mae'r nodweddion hyn, a all fod yn haniaethol, yn helpu i ffurfio a diffinio Castell-nedd Port Talbot (CNPT) a'i wneud yn lle fel y mae.

Mae nifer o ddangosyddion Llesiant cenedlaethol yn gysylltiedig â 'llesiant diwylliannol', gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â'r canlynol: cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth; gallu i siarad Cymraeg; ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol; diogelu asedau treftadaeth a'u statws achredu; a chyfranogiad mewn chwaraeon (Llywodraeth Cymru, 2019). Ymhlith y dangosyddion cenedlaethol eraill sy'n gysylltiedig â Llesiant diwylliannol yng nghyhoeddiadau Llywodraeth Cymru mae'r rhai sy'n ymwneud â dylanwad canfyddedig unigolion ar benderfyniadau lleol; cyfraddau gwirfoddoli; a statws asedau naturiol ac ecosystemau.

Mae tystiolaeth glir bod treftadaeth a diwylliant yn rhan annatod o ymdeimlad pobl o hunaniaeth a pherthyn, sydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a Llesiant pobl. Mae treftadaeth a diwylliant hefyd yn cyfrannu at yr economi trwy gynnal cyflogaeth am dâl, helpu i ddenu mewnfuddsoddi, a chynhyrchu gwerth trwy weithredu gwirfoddol.

BETH RYDYN NI'N EI WYBOD AR HYN O BRYD AM GYFLWR LLESIANT DIWYLLIANNOL YN CNPT?



Mae'r adran sy'n dilyn yn dadansoddi'r hyn rydyn ni eisoes yn ei wybod am gyflwr llesiant diwylliannol yn CNPT. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad yn cynnwys ffynonellau ymchwil, dangosyddion cenedlaethol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gwybodaeth arall am berfformiad, tystiolaeth a gasglwyd i lywio Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor ac asesiadau eraill statudol/cenedlaethol/lleol a gynhaliwyd. Ar hyn o bryd mae mesurau cyfyngedig ar gael ar lefel genedlaethol i gefnogi asesiad o lesiant diwylliannol. Fodd bynnag, mae cyfoeth o wybodaeth ar gael i ni, gormod i'w grynhoi, trwy unigolion a chymunedau yn CNPT sy'n angerddol ynghylch eu hamgylchedd a'u treftadaeth lleol.

Trwy ein hymgyrch Dewch i Sgwrsio, mae pobl leol wedi dweud wrthyn ni fod eu hamgylchedd lleol, yr iaith Gymraeg a'n treftadaeth a'n diwylliant yn bwysig iddyn nhw. Maen nhw eisiau i ni wneud y canlynol:

- Cadw'r gorffennol yn fyw, gan hyrwyddo a dathlu ein treftadaeth er mwyn cryfhau ein hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn;
- Helpu i warchod, cadw a chynnal ein safleoedd hanes a threftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- Hyrwyddo iaith, traddodiadau a diwylliant y Gymraeg;
- Helpu pob cenedlaeth i gysylltu â'n hamgylchedd naturiol, ein treftadaeth a'n diwylliant;
- Helpu ein grwpiau cymunedol a gwirfoddol i gynnal eu gwaith pwysig a'i ddatblygu ymhellach.

Mae modd rhannu llesiant diwylliannol yn 5 is-thema:



TREFTADAETH A'R CELFYDDYDAU



TREFTADAETH

Mae gan fwrdeistref Castell-nedd Port Talbot ddigonedd o hanes a threftadaeth sydd nid yn unig yn adlewyrchu hanes lleol a hanes Cymru, ond sy'n feicrocosm o hanes a datblygiad Prydain a'r byd.

Mae'n ddiamau yn ardal sydd â chyfoeth o ddiwylliant a hanes. Seintiau, beirdd, cantorion, merthyron, gwyddonwyr ac arloeswyr: mae llawer a wnaeth gyfraniad allweddol i'r byd wedi'u gwreiddio'n gadarn yn y fwrdeistref.

Mae amgylchedd adeiledig Castell-nedd Port Talbot yn amrywiol a thrawiadol, gyda nodweddion pwysig o bob cyfnod mewn hanes, gan gynnwys Carneddau Oes Efydd, bryngaerau Oes Haearn a thystiolaeth o feddiant milwrol Rhufeinig yng Nghwrt Herbert, Tonna a'r Banwen. Mae adeiladau canoloesol, gan gynnwys 2 abaty, castell, eglwysi a thyddynnod, o Faglan i Ynysmeudwy.

Mae tref Castell-nedd wedi cadw cymeriad tref farchnad draddodiadol, a ddatblygwyd o amgylch y castell Normanaidd, ac sy'n gartref i'r ffair hynaf yng Nghymru, yn dyddio nôl i 1280. Mae llawer o'r strydoedd sy'n ffurfio canol y dref yn enghreifftiau gwych o bensaernïaeth a chynllunio trefol Oes Victoria. Stryd y Frenhines oedd y stryd fasnachol gyntaf a gynlluniwyd yn y dref, a hynny yn 1837, yn arwain yn uniongyrchol o'r Merra ar y pryd (Gerddi Victoria yn ddiweddarach) i'r farchnad.

Daeth trefi a phentrefi eraill yn y fwrdeistref i fodolaeth trwy ddatblygiad diwydiannol yr ardal: cloddio am lo, gwaith metel a'r diwydiant olew oedd yn hanfodol i ddatblygiad pentref Llandarcy.

Mae tystiolaeth o arloesedd diwydiannol a fu'n pweru'r Chwyldro Diwydiannol yng ngwaith haearn Mynachlog Nedd, a datblygiad smeltio copr yn Aberdulais, pan berffeithiwyd dull newydd o smeltio copr trwy orchymyn brenhinol y Frenhines Elizabeth 1af.

Mae nid 1, ond 3 rhwydwaith o gamlesi yn rhan hanfodol o ddatblygiad cynifer o bentrefi, o Lyn-nedd i Lansawel ac ar draws i Abertawe, yn ogystal â rhan o gamlas Tawe o Ystalyfera trwy Bontardawe.

Mae traphontydd dŵr, traphontydd, ffermydd, melinau, dociau a rheilffyrdd, a bu peirianwyr a gwyddonwyr amlwg yn gweithio yma, gan gynnwys Isambard Kingdom Brunel, peiriannydd dociau Llansawel, ac Alfred Russel Wallace, un o naturiaethwyr amlycaf y byd, a fu'n byw ym mwthyn Llanilltud ac a sylfaenodd Sefydliad y Mecanyddion yng Nghastell-nedd cyn dod yn gyd-gyhoeddwr ar theori esblygiad trwy ddetholiad naturiol gyda Charles Darwin.

Gall Sir Castell-nedd Port Talbot ymffrostio yn y canlynol:

- 393 o Adeiladau Rhestredig
- 93 o Henebion Cofrestredig
- 6 o Ardaloedd Cadwraeth
- 6 o Barciau Rhestredig

6 o Amgueddfeydd/Canolfannau Treftadaeth, yn cynnwys:

- Amgueddfa Glofa Cefn Coed
- Canolfan Dreftadaeth Pontardawe
- Amgueddfa Cerrig Margam
- Amgueddfa Glowyr De Cymru
- Bae Abertawe yn y 1940au
- Rhaedrau Aberdulais a'r Ganolfan Ymwelwyr

Mae Parc Margam yn safle cofrestredig gradd I oherwydd ei bwysigrwydd hanesyddol neilltuol a'i natur amlhaenog. Mae'n cynnwys gweddillion cynhanes ac abaty Sistersaidd, ac mae yno gyfnodau gerddi a thirlunio Tuduraidd, 18fed ganrif a 19eg ganrif. Elfennau arbennig o bwysig yw'r parc ceirw amgaeedig o safon uchel iawn, ffasâd y tŷ gwledda, yr orendy Sioraidd neilltuol, y Tŷ Sitrws a'r gerddi 19eg ganrif gyda'u casgliad gwych o goed a llwyni. Mae'r ardd o ddiwedd y 1940au gan Ralph Hancock yn Nhwyn-yr-hydd yn elfen gyfnodol ddymunol dros ben, sydd mewn cyflwr arbennig o dda, oddi mewn i'r parc. Mae'r parc a'r ardd a gofrestrwyd yn rhannu gwerth grŵp pwysig gyda'r henebion cofrestredig a'r holl adeiladau rhestredig sydd ag arwyddocâd hanesyddol yn ystâd Margam.

Rydym wedi cynhyrchu actorion, artistiaid, cyfansoddwyr ac arwyr chwaraeon, a fu'n cynrychioli eu tref a'u gwlad yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Claddwyd yr arwr chwedlonol a merthyr Cymreig Gwrthryfel Merthyr, Dic Penderyn, yn Eglwys y Santes Fair, Aberafan, ac ni allwn anghofio ymdaith Oliver Cromwell trwy Aberafan yn 1648 a'i ymgais i ddwyn siarter y dref, a guddiwyd yn gyfrwys mewn bwrdd torri. Arhosodd yr Arglwydd Nelson unwaith yng Ngwesty'r Castell, Castell-nedd, ac yno hefyd, fel mae'n digwydd, y ffurfiwyd Undeb Rygbi Cymru yn ddiweddarach, yn 1881.

Mae rhai o gymeriadau mwyaf nodedig hanes Prydain wedi ymweld â ni, neu wedi ysgrifennu a chanu amdanom. Mae ein tirlun wedi denu artistiaid megis Thomas Horner (1785-1844), William Weston Young (1776-1847) a J.M.W Turner (1775-1851), ac yn fwy diweddar Banksy yn Nhaibach.

Roedd yr arlunydd argraffiadol enwog Will Roberts yn byw yng Nghastell-nedd, a daeth Andrew Vicari o Bort Talbot yn enwog fel "brenin arlunwyr ac arlunydd brenhinoedd" ar ôl cael ei gomisiynu i greu darluniau o bennaethiaid gwladwriaethau a brenhinoedd Arabaidd.

Pa fwrdeistref arall sy'n cynhyrchu sêr ffilmiau Hollywood a mawrion rhyngwladol fel Richard Burton, Anthony Hopkins, Michael Sheen, Ivor Emmanuel, a Ray Milland? Daeth y llinell gyntaf a lefarwyd erioed yn Coronation Street o enau Maudie Edwards, o ardal Melyn yng Nghastell-nedd, ysbrydolwyd rhaglen ddogfen ddiweddar Netflix, 'Hollywood' gan hanes Peggy Entwistle, actores a anwyd ym Mhort Talbot, a Mary Hopkin o Bontardawe, oedd yn enwog am ei gân lwyddiannus 'Those Were the Days' oedd yr artist cyntaf i gael ei neilltuo ar gyfer label Apple y Beatles.

Yr hanesion a'r cyflawniadau hyn sy'n creu gwedd diwylliannol cyfoethog Castell-nedd Port Talbot. Maent yn ennyn balchder gwirioneddol, ac yn hybu uchelgais a dyheadau yn ein cymunedau.

GRWPIAU GWIRFODDOL / CYMDEITHASAU HANES



Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae gennym rwydwaith cryf iawn o wirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddiplino i ddiogelu, gwarchod, darganfod a hybu treftadaeth gyfoethog ein bwrdeistref. Mae hyn yn amlwg o nifer y cymdeithasau a'r grwpiau a sefydlwyd sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ddiwylliant a threftadaeth. Mae gan CNPT fforwm benodol a sefydlwyd gan adran y Gwasanaethau Diwylliannol yn gynnar yn y 2000oedd.

Mae Rhwydwaith Treftadaeth Castell-nedd Port Talbot yn cwrdd bob chwarter i annog ymgysylltiad a chydlyniant ymhlith y cymdeithasau hyn. Mae'n gweithredu fel cyfnewidfa gwybodaeth, lle rhennir syniadau, newyddion y cymdeithasau, digwyddiadau ac arfer da.

Mae gweithgareddau'r cymdeithasau a'r grwpiau yn amrywio, mae rhai yn rhagweithiol, ac yn cynnal safleoedd sydd â phwysigrwydd hanesyddol yn ymarferol, gan fynd ati i chwilio am gyllid ar gyfer prosiectau a fydd yn ennyn diddordeb mewn cyfleusterau megis canolfannau ymwelwyr ac amgueddfeydd preifat, camlesi a safleoedd arwyddocaol, ac yn eu cadw a'u cynnal.

Mae cymdeithasau eraill yn benodol ar gyfer ymchwil, gyda'r mwyafrif yn cynnal cyfarfodydd misol lle ceir anerchiadau, digwyddiadau, arddangosfeydd a phrosiectau sy'n ymgysylltu a'r gymuned a'r tu hwnt, er mwyn sicrhau na chaiff ein treftadaeth ei hanghofio.

Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau yn cynhyrchu cyhoeddiadau ar ffurf llyfrau cyfeiriadol, cylchgronau neu ar-lein. Mae gan bob un ohonynt bresenoldeb ar-lein gyda gwefan a/neu dudalen Facebook sy'n creu cysylltiad gweithredol nid yn unig â'u cymuned leol, ond hefyd ag ymwelwyr â'r ardal a chynulleidfaoedd ar draws y byd.

Cymdeithasau Hanes Lleol ac Aelodau o Rwydwaith Treftadaeth CNPT:

- Côr Bois Afan
- Cymdeithas Hanes Cwm Dulais
- Cymdeithas Dic Penderyn
- Cymdeithas Hanes Dyffryn Clydach a Bryncoch
- Cyfeillion Rhaeadrau Aberdulais
- Cyfeillion Cefn Coed
- Cyfeillion Parc Margam
- Cyfeillion Cwmni Haearn Mynachlog Nedd
- Cyfeillion Parc Coffa Talbot
- Cymdeithas Hanes Glyn-nedd a Chwmgwrach
- Y Gymdeithas Hanes, Cangen Abertawe
- Cymdeithas Hynafiaethau Castell-nedd
- Cymdeithas Hanes Rheilffordd Castell-nedd a Gweithwyr Rheilffordd GWR a Ymddeolodd
- Ymddiriedolaeth Camlas Nedd a Thenant
- Canolfan Dreftadaeth Pontardawe
- Cymdeithas Hanes Port Talbot
- Cymdeithas Hanes Resolfen
- Prosiect Cyfoeth Hanes (Cymdeithas Treftadaeth Ddiwydiannol Sgiwen a'r Cylch)
- Cymdeithas Hanes Sgiwen
- Amgueddfa Glowyr De Cymru
- Cymdeithas Hanes Cwm Tawe
- Cymdeithas Camlas Abertawe
- Treftadaeth Brynaman
- Amgueddfa Trafnidiaeth Cymru a Lonydd y Cof

Sbardunodd yr ymgyrch Dewch i Sgwrsio ymateb angerddol gan drigolion ynghylch treftadaeth a hanes. Dyma rai o'r pethau oedd yn bwysig i bobl:

- Parhau i ddatblygu a chefnogi'r ganolfan Dreftadaeth ym Mhontardawe
- Adfer strwythurau adeiladau sydd o ddi-ddordeb hanesyddol (Dulais Rock, y Tŵr Iorwg, gatiâu coffa Parc Tenant, Stodin Band parc coffa Taibach, traphont ddŵr Aberdulais, cloddfa ddrifft Craig Gwladys)
- Amgueddfa
- Syniadau gwych ar gyfer llwybrau cerdded, yn cynnwys llwybr 'Dic Penderyn', llwybr tirwedd hanesyddol 'Mynydd Dinas'

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, yn 2019 adroddodd 64% o'r bobl oedd yn byw yn CNPT eu bod yn cyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 71%.

I gymharu hyn ar lefel ranbarthol, yn 2019 cynhaliodd Cyngor Celfyddydau Cymru eu harolwg blynyddol i ymchwilio i ymgysylltiad y cyhoedd â'r celfyddydau yng Nghymru ac agweddau tuag atynt. Yn Rhanbarth y De-orllewin adroddodd 83.8% o oedolion eu bod yn cyfranogi mewn o leiaf un math o gelfyddyd yn ystod y flwyddyn, a dyna oedd y gyfradd isaf o blith rhanbarthau Cymru. Y de-orllewin hefyd oedd un o'r isaf o ran adrodd am gyfranogiad yn y celfyddydau, ar 42.2%, oedd hefyd wedi gostwng ers 2017. Ar draws Cymru y ffurf ar gelfyddyd a fynychir amlaf yw'r sinema, gyda digwyddiadau cerddoriaeth fyw yn dilyn.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae nifer o grwpiau a lleoliadau sy'n hybu ac yn cyflwyno gweithgareddau cysylltiedig â'r celfyddydau, gan gynnwys y tair canolfan – Canolfan Celfyddydau Pontardawe, Theatr y Dywysoges Frenhinol, a Neuadd Gwyn.

CANOLFAN CELFYDDYDAU PONTARDAWE



Adeiladwyd Canolfan Celfyddydau Pontardawe yn wreiddiol yn 1908, yn Neuadd Gyhoeddus ac Institiwt yng nghanol y pentref, ond yn 1996 agorodd wedi gwaith adnewyddu helaeth a ariannwyd gan yr awdurdod lleol. Cylch gorchwyl eang y Ganolfan yw darparu cyfleoedd i ymgysylltu â'r celfyddydau er mwyn darparu detholiad cryf o ddiwylliant yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae Canolfan Celfyddydau Pontardawe wedi datblygu rhaglen unigryw yn y blynyddoedd ers ei sefydlu, ac wedi llwyddo trwy ymateb i'r angen newidiol. Ymrwymiad y rhaglen yw cyflwyno sioeau proffesiynol sy'n cwmpasu drama, comedi, yr iaith Gymraeg, cerddoriaeth, a theatr i blant. Datblygwyd gwahanol drywyddau'r rhaglen yn systematig gyda threigl y blynyddoedd, ac mae pwyslais ar safon y cynnyrch er mwyn datblygu marchnad arbenigol trwy wahaniaethu ar ffurf pwyslais rhanbarthol.

Yn ogystal â'r rhaglen broffesiynol o ddigwyddiadau byw, caiff ffilmiau prif ffrwd ac arbenigol eu sgrinio; cyflwynir sioeau amatur, gan gynnwys y Pantomeim lleol. Yn ogystal, mae'r oriel ar gael ar gyfer gweithdai ac arddangosfeydd.

Maes gweithgaredd pwysig yw cyfranogiad, gyda dosbarthiadau a gweithdai niferus yn cael eu cyflwyno ar draws ffurfiau celf, a hynny i groestoriad eang o'r gymuned. Addysg yw'r sylfaen ar gyfer llawer o'r gweithgarwch yn y ganolfan, ac mae llawer o gyfleoedd i ddysgu'n ffurfiol ac yn anffurfiol. Trwy ymgysylltu â sefydliadau partner gan gynnwys y Siambr Fasnach, Cyngor Tref Pontardawe, Menter Iaith, y gwasanaeth ieuencid, Mess up the Mess, tîm Bespoke Community Connecting, Rising Stars, Agility, dysgu i oedolion Cymru, PASS a Phartneriaeth Meddwl am y Teulu, mae'r lleoliad yn cefnogi llawer o brosiectau cymunedol yn rhagweithiol.

Mae Canolfan y Celfyddydau yn falch o gefnogi llawer o gwmnïau i ddatblygu gwaith creadigol yn y lleoliad, gan gynnwys datblygu cynyrchiadau mewnol i fynd ar daith yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Mae'r Ganolfan yn cefnogi gwell iechyd a llesiant trwy gynnig cyfleoedd i fwynhau a chyfranogi, sy'n darparu profiadau pwysig sy'n rhoi boddhad ac ymdeimlad o lesiant. Ar hyn o bryd mae mwy na 300 o bobl ifanc yr wythnos yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau sy'n cefnogi Nod Craidd 4 y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Ar ben hynny, mae rhyw 100 o oedolion yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau, gan gynnwys côr a chelf a chreffft. Y grŵp diweddaraf o oedolion i ymgartrefu yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe, ar ôl colli eu hadeilad, yw'r grŵp pensiynwyr. Ers i'r Gwasanaeth Dydd gau yn y dref, mae'r oedolion ag anghenion ychwanegol a ddadleolwyd yn awr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yng Nghanolfan y Celfyddydau bedwar diwrnod yr wythnos.

Mae'r lleoliad wedi ymrwymo i gydweithio'n agos â phartneriaid a chymhwyso egwyddorion cynhwysiad cymdeithasol a chyfle cyfartal. Mae pwyslais ar safon ac arfer gorau yn mynd law yn llaw â phwyslais ar fynediad cyfartal. Mae gan y gwasanaeth sylfaen eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys pawb sy'n byw, yn gweithio neu'n cael eu haddysg yn y Fwrdeistref Sirol a'r tu hwnt, yr holl ymwelwyr â'r ardal, a grwpiau partner a all fod yn ymwneud â phrosiectau arbennig, a/neu fentrau a ariannir yn allanol. Nod y gwasanaeth yw ymgysylltu â phob oed, ond er mwyn ehangu mynediad, mae angen dull gweithredu wedi'i dargedu mewn rhai meysydd, gan gynnwys plant, ardegwyr/oedolion ifanc, pobl ifanc sydd wedi colli eu lle yn y gymdeithas, ardaloedd lle ceir amddifadedd, yr henoed, teuluoedd a phobl yn y gymuned leol.

Nod Canolfan Celfyddydau Pontardawe yw cyfoethogi bywydau pobl trwy eu hymgysylltiad â'r celfyddydau. Mae'n rhywle lle gall pobl o bob cefndir deimlo'n ddiogel a chael croeso, lle gallan nhw gael eu hysbrydoli gan y celfyddydau, cymdeithasu a thyfu fel unigolion/cymunedau, a dathlu diwylliant dwyieithog unigryw ein Sir.

THEATR Y DYWYSOGES FRENHINOL



Mae Theatr y Dywysoges Frenhinol yng nghanol Port Talbot ac fe'i hagorwyd yn 1996. Mae'r Theatr yn darparu profiadau theatr fforddiadwy o safon i bobl Castell-nedd Port Talbot. Mae hefyd yn dod â refeniw i'r ardal trwy ddenu ymwelwyr o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol.

MAE TAIR ELFEN WAHANOL I'R GWEITHGARWCH:

- Rhaglen Theatr – sioeau proffesiynol a gomisiynir gan y Theatr.
- Digwyddiadau/Sioeau Hurio Preifat – cyfleusterau sydd ar gael i grwpiau cymunedol a busnesau a sefydliadau lleol fel ei gilydd i gynnal digwyddiadau o gynyrchiadau amatur i gynadleddau a seminarau.
- Hurio Mewnol – ar gyfer cynadleddau a seminarau.

NEUADD GWYN



Mae Neuadd Gwyn yng nghanol tref Castell-nedd, ac mae wedi bod yn rhan annatod o hanes Castell-nedd ers ei adeiladu yn 1887. Ailagorodd ym mis Mawrth 2012 yn dilyn gwaith adnewyddu helaeth.

Mae'r lleoliad ar agor saith niwrnod yr wythnos ac yn cynnwys theatr â 384 o seddau sy'n cynnig rhaglen amrywiol o gerddoriaeth, adloniant ysgafn, sioeau plant, comedi, a dawns. Mae Neuadd Gwyn wedi bod yn datblygu ei rhaglen fyw yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys grwpiau amatur lleol, ysgolion, digwyddiadau llyfrgell a Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru yn flynyddol, y mae Neuadd Gwyn yn bartner allweddol ynddi. Fel rhan o'r cysylltiadau addysgol ag ysgolion, mae Neuadd Gwyn yn gweithio mewn partneriaeth â Cerdd NPT Music i berfformio The Sound of Cinema fel prosiect blynyddol i ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol. Mae Neuadd Gwyn hefyd yn gweithio gydag Ysgol Cefn Saeson ar brosiect allgyrsiol Llywodraeth Cymru 'Rhythm y Diwrnod Ysgol'.

Mae Neuadd Gwyn yn atgyfnerthu ei henw da ac yn sefydlu patrwm o raglenni sy'n annog twf y gynulleidfa. Mae cwsmeriaid wedi dysgu y gallant fod yn ffyddiog ynghylch rhaglen y lleoliad, fel sy'n amlwg o'r cynnydd yn yr archebion eildro.

Caiff digwyddiadau byw a sinema eu teilwra i'r gynulleidfa er mwyn creu ymdeimlad o le, arbenigrwydd ac unigrywiaeth.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn elfen allweddol, ac mae cysylltiadau â Gŵyl Shakespeare i Ysgolion, BFI, Theatr Na N'Og, Cymdeithas Sinema'r Deyrnas Unedig a Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru i gyd wedi cyfrannu at y rhaglen sinema a byw. Mae partneriaethau hefyd yn allweddol wrth ddatblygu'r gynulleidfa, gan fod cysylltiadau cryf â Choleg Castell-nedd Port Talbot, Theatr Fach Castell-nedd, grwpiau ieuenctid niferus a'r Cymdeithasau Sioeau Cerdd Amatur sy'n llwyfannu eu perfformiadau yn y ganolfan. Mae Cymdeithas Sioeau Cerdd Amatur Castell-nedd hefyd yn gweithio gyda'r lleoliad i gyflwyno pantomeim cymunedol blynyddol.

Mae Neuadd Gwyn yn annog grwpiau ac unigolion i gyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydau a diwylliant – anogir ysgolion a grwpiau cymunedol lleol i logi'r theatr ar gyfer cyngherddau a pherfformiadau, er mwyn gwerthfawrogi profiad cynhyrchu proffesiynol yn llawn.

Defnyddir y theatr hefyd fel sinema dangosiad cyntaf, gyda'r ffilmiau mawr diweddaraf, yn ogystal â pherfformiadau byw y Theatr Genedlaethol a'r Tŷ Opera Brenhinol, sydd mor boblogaidd, fel rhan o'r Rhaglen Digwyddiadau Sinema.

Mae'r POD Sinema yn cynnig sgrîn sinema ddynodedig gyda 73 o seddau moethus ac awyrgylch agos atoch. Y Sinema Stiwdio yw'r ychwanegiad diweddaraf i Neuadd Gwyn, ac mae ar y 3ydd llawr yn ymyl y POD. Mae'r sinema hon yn cynnwys uchafswm o 90 o seddau, yn cynnwys 2 le i gadeiriau olwyn.

Cynigir amrywiaeth o drefniadau sgrinio hygyrch, er mwyn darparu profiad sinema gwych i'r holl westeion.

Trefniadau Sgrinio Hamddenol yn Neuadd Gwyn – sicrhau bod y sinema'n hygyrch i bawb. Gall pobl wynebu llawer o rwystrau wrth ystyried taith i'r sinema, a'n bwriad ni yw chwalu'r rhwystrau hynny a chrosawu pawb i awyrgylch digynnwrf. Mewn trefniadau sgrinio hamddenol, mae lefel y trac sain yn is, ac mae goleuadau isel yn cael eu gadael ymlaen. Mae'n iawn gwneud sŵn, symud o gwmpas neu adael y sinema. Rydyn ni hefyd yn darparu ardal "dawel" benodol tu allan i'r POD, os bydd pethau'n mynd braidd yn ormod, neu os bydd angen egwyl fach o'r ffilm. Nid oes hysbysebion na chlipiau rhagflas cyn y ffilm, er mwyn i'r cwsmeriaid fedru mwynhau'r brif arlwy yn llawn.

Sgrinio gydag isdeitlau – Nid yw methu clywed y ddeialog yn golygu bod cwsmeriaid Neuadd Gwyn yn methu mwynhau ffilm wych. Mae'r dangosiadau hyn ar agor i bawb, ond mae isdeitlau'n cael eu darparu i'r rhai sy'n cael anhawster clywed. Ni wneir unrhyw newidiadau eraill i'r trefniadau sgrinio. Lle bo modd, rydyn ni'n ceisio sgrinio o leiaf un perfformiad gydag isdeitlau o'n prif ffilm, os darparwyd fersiwn gydag isdeitlau o'r ffilm i ni.

Mae bron pob ffilm newydd sy'n cael ei rhyddhau i'w sgrinio yn y sinema yn cynnwys disgrifiad sain ar gyfer cwsmeriaid dall neu rai sydd â nam ar eu golwg.

Bar caffi trwyddedig yw The Place yn Neuadd Gwyn. Mae'n rhan o'r atriwm gwydr deniadol ac yn lle braf i gwrdd ac ymlacio. Gyda chysylltiad di-wifr am ddim, mae'n lle delfrydol ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol, i ddal i fyny gyda ffrindiau, neu i gael ychydig o dawelwch i chi'ch hunan, wrth i chi wylïo'r byd yn mynd heibio. Mae Neuadd Gwyn yn ymfalchïo yn ei chyfleusterau hygrych a hwylus i deuluoedd ar bob llawr. Mae seddau i'r anabl ar gael ar gais yn y brif theatr, y sinema stiwdio a'r POD sinema.

Nod y lleoliad yw denu ymwelwyr ychwanegol i'r dref a gwella profiad ymwelwyr; enghraifft o hyn yw sicrhau Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru, sydd i'w chynnal yn y lleoliad am 2 flynedd arall o leiaf, ac sy'n denu ymwelwyr o bob rhan o'r byd. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar y sector lletygarwch yn y gymuned a'r ardaloedd o amgylch.

GWELEDIGAETH

"Darparu adloniant theatrig a sinematig eithriadol, fforddiadwy i bawb, mewn amgylchedd diogel, proffesiynol a chroesawgar."

DATGANIAD CENHADAETH

"Bydd Neuadd Gwyn yn ennyn diddordeb, yn ysbrydoli ac yn difyrru ein cynulleidfaoedd presennol a newydd trwy berfformiadau byw, profiadau sinematig a chyfleoedd cyfranogol, a fydd yn meithrin hyder, ymgysylltiad â'r gymuned, ac yn rhoi lleoliad y gallant ymfalchïo ynddo i'n cynulleidfaoedd. Darparu rhaglen a fydd yn esblygu ac yn tyfu ochr yn ochr â'n cynulleidfaoedd, gan annog teyrngarwch ac ymdeimlad o berchnogaeth, fydd yn cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth."

Mae pandemig Covid-19 yn amlwg wedi cael effaith ddwys ar theatrau a sinemâu ledled Cymru. Dangosir hynny gan y ffigurau yn y tabl isod, ac mae'n aneglur ar hyn o bryd pa mor hir y gallai gymryd i'r niferoedd gyrraedd y lefelau cyn y pandemig.

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Theatrau							
Theatr y Dywysoges Frenhinol	50,781	41,718	54,242	42,368	47,148	3,565	12,995
Canolfan Celyddy-dau Pontardawe	62,796	55,343	58,052	59,200	53,951	10,496	7,634
Neuadd Gwyn	104,363	117,842	137,367	137,913	126,567	2,428	19,202

Ffigurau mis Ebrill i fis Medi yw rhai 2021/22 ar hyn o bryd.

Mae gwaith ymchwil a wnaed gan The Audience Agency yn ystod mis Tachwedd 2021 yn dangos mai yn achos dramâu a sioeau cerdd y gwelwyd y gostyngiad mwyaf o ran niferoedd mynychwyr ers dechrau'r pandemig. Mae presenoldeb mewn ffurfiau celf wedi cynyddu yn ystod 2021, yn arbennig o ran safleoedd treftadaeth, gerddi a sinemâu. Fodd bynnag, dywedodd 40% o'r rhai oedd yn rhan o'r arolwg yng Nghymru eu bod yn dal heb fod yn gyfforddus neu heb ddiddordeb mewn mynychu digwyddiad celfyddydau, a dywedodd traean o'r rhai a ddywedodd y bydden nhw'n 'hapus i fynychu', eu bod yn dal i bryderu am fynd yn sâl oherwydd Covid-19.

GWYLIAU A DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL



Yn ogystal â'r tair prif ganolfan sy'n cyflwyno gweithgareddau cysylltiedig â'r celfyddydau yn CNPT, mae nifer y gwyliau a'r digwyddiadau cymunedol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Enghreifftiau o'r rhain yw Gŵyl Fwyd a Diod Castell-nedd, a gychwynnodd yn 2009 ac sydd ers hynny wedi ymsefydlu fel un o brif ddigwyddiadau calendr y dref. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r wyl wedi amlygu'r amrywiaeth o gynnyrch Cymreig o safon uchel sydd ar gael yn lleol, ac wedi canolbwyntio ar yr ystod o gynnyrch sydd ar gael gan gyflenwyr arobryn ym marchnad Fictoraidd y Dref a'r ardal o amgylch. Mae'r wyl yn ddathliad gwirioneddol o gynnyrch lleol, ac awrygylch tref farchnad hanesyddol Castell-nedd.

Enghraifft arall yw Ffair Castell-nedd ym mis Medi – digwyddiad awyr agored hanesyddol a gynhelir yn flynyddol yng nghanol Castell-nedd. Mae'n denu torfeydd o bell, ac mae'n cael ei chydabod fel pedwaredd ffair fasnachu fwyaf y Deyrnas Unedig ar y strydoedd. Cynhaliwyd y digwyddiad blynyddol hwn yng Nghastell-nedd ers cannoedd lawer o flynyddoedd, ac mae'n ffefryn mawr ar draws yr ardal leol. Mae'r ffair sy'n gyfarwydd i ni heddiw gyda'r stondinau ar hyd y strydoedd a'r reidiau ffair bywiog yn wahanol iawn i ffeiriau gwreiddiol 700 mlynedd yn ôl. Mae masnachwyr o'r Deyrnas Unedig, ac yn fwy diweddar Ewrop, yn dod i'r digwyddiad pedwar diwrnod hwn.

'Gŵyl Farcutiau Ryngwladol Margam', a gynhelir dros benwythnos Gŵyl Banc diwedd Mai yw'r wyl farcutiau hynaf yng Nghymru, ac yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 1980au. Mae'n denu hedfanwyr barcutiau proffesiynol ac amatur o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, ac yn cael ei hadnabod fel 'gŵyl yr hedfanwyr barcutiau'.

Y gobaith yw y bydd y ddwy wyl hon yn ailgychwyn eleni ar ôl cael eu canslo ers dwy flynedd oherwydd Covid-19.

CERDDORIAETH DAWNS A DRAMA



Mae nifer o gorau yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn amrywio o Gorau Meibion traddodiadol i gorau Merched, Cymreig a chymysg. Hefyd mae nifer o fandiau sy'n cynnal gigiau.

Cynhaliwyd gŵyl o gerddoriaeth a dawns bob mis Awst ym Mhontardawe ers 1978 ac mae'n denu cerddorion ac artistiaid o bob rhan o'r byd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cynhaliwyd nifer o wyliau cerddoriaeth bychan yn CNPT gydag artistiaid lleol, ac ym mis Mehefin eleni, bydd Margam yn croesawu gŵyl In it Together, y disgwylir iddi ddenu 40,000 o bobl, gyda phum llwyfan o gerddoriaeth genres amrywiol o'r radd flaenaf, a thridiau yn llawn adloniant a chyfoeth o ddiwylliant. Hon fydd yr wyl fwyaf o'i bath i'w chynnal yng Nghymru.

Mae nifer o grwpiau dawns yn yr ardal a nifer o gymdeithasau dramatig amatur ac operatig ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys Theatr Ieuencid Gorllewin Morgannwg, sef theatr ieuencid sy'n darparu profiadau perfformio i bobl ifanc 13-21 oed yn ardal Gorllewin Morgannwg. Nod y gwaith yw ehangu gwybodaeth myfyrwyr am destunau dramatig trwy ganolbwyntio ar gynyrchiadau ieuencid llai traddodiadol, 'poblogaidd'. Mae'r Theatr yn ymfalchïo ei bod yn creu gwaith i amrywiaeth o leoliadau ar draws y siroedd, o Ganolfannau Celfyddydau i ysgolion a manau awyr agored.

LLYFRGELLOEDD



Mae 8 llyfrgell yng ngofal y cyngor yn CNPT, a 7 llyfrgell arall a reolir yn gymunedol. Mae llyfrgelloedd yn llawer mwy nag adnodd ar gyfer benthyg llyfrau, ac yn chwarae rôl fwyfwy pwysig mewn cysylltiadau cymunedol. Mae'r gweithgareddau a'r profiadau diwylliannol mae llyfrgelloedd yn eu cynnig yn cyrraedd pobl nad ydynt fel arfer yn cyfranogi yn y celfyddydau a diwylliant, gan eu helpu i ddatblygu cariad atynt a gwerthfawrogiad ohonynt. Mae llyfrgelloedd mewn sefyllfa ddelfrydol i helpu sefydliadau celfyddydau a diwylliant i gyrraedd y cymunedau hyn.

Yn ogystal â darparu cefnogaeth ddigidol hanfodol i'r trigolion, mae llyfrgelloedd yn CNPT yn cynnig gweithgareddau i bob oed, gan gynnwys Amser Stori i'r Teulu, grwpiau Caneuon a Rhigymau, Clwb Lego, a sesiynau crefftau a hanes. Mae gostyngiadau yng nghyllideb y Cyngor wedi golygu bod llyfrgelloedd yn cau, er bod rhai ohonynt yn dal i weithredu yng ngofal gwirfoddolwyr cymunedol. Gall cynaliadwyedd fod yn anodd ac yn anrhagweladwy, fydd yn golygu bod dilyniant yr adnoddau hyn mewn perygl i'r dyfodol.

TREFTADAETH NATURIOL



Mae cysylltiad annatod rhwng treftadaeth naturiol a diwylliannol. Ein treftadaeth naturiol yw ein rhodd gan fyd natur, a'r hyn mae cenedlaethau'r gorffennol wedi'i drosglwyddo i ni. Mae'r dreftadaeth honno'n ein ffurfio a'n haddasu – gan lywio pwy ydym a ble rydym. Fel y nodwyd uchod, mae ein trefi a'n cymunedau wedi datblygu o amgylch llwybrau trafnidiaeth strategol sy'n cysylltu de Cymru, a hefyd yr adnoddau naturiol mae'r ardal yn eu darparu, yn fwyaf nodedig glo. Er gwaethaf ei delwedd ddiwydiannol, mae'r sir yn ymfalchïo mewn amrywiaeth a safon eithriadol o fioamrywiaeth.

Mae'n bwysig sylweddoli nad yw ein treftadaeth naturiol yn statig – mae'n rhywbeth byw. Yn yr un modd ag yr ydym yn derbyn manteision o fyd natur, mae ein ffordd o fyw ynddo'i hun yn cael effaith ar fyd natur – er gwell neu er gwaeth. Gallwn ni weld hyn yn boenus o eglur o'n gorffennol diweddar, lle costiodd y twf a'r ffyniant a gawsom o'n cynnydd diwydiannol yn ddud iawn i'r amgylchedd, a gwelwyd dirywiad eang yng nghyflwr yr amgylchedd naturiol.

Er ein bod wedi gweld trawsffurfiad sylweddol yn ystod ail hanner yr 20fed ganrif, yn arbennig gyda gwelliannau yn ansawdd yr amgylchedd lleol, rydyn ni'n gweld dirywiad sy'n destun pryder yn ein bioamrywiaeth, ac mae'r newid yn yr hinsawdd yn gwaethgu hynny. Mae'r ddau argyfwng yn rhannu achosion, a gallwch ddarllen mwy am hyn a'r goblygiadau i'n llesiant yn ein pennod ar yr amgylchedd.

Rydyn ni hefyd yn gweld agweddau'r cyhoedd yn newid. Er gwaethaf holl elfennau negyddol y pandemig, mae Covid a'r cyfnodau clo wedi'n gwneud yn fwy ymwybodol o'n manau lleol, wedi gwella cydlyniant cymunedol, ac wedi ailgynnau ein diddordeb ym myd natur ar garreg y drws. Mae hefyd o bosib wedi ailosod ein dull o feddwl a gweithredu, yn amlwg felly yng nghyd-destun sut rydyn ni'n gweithio. Yn 2020 cynhaliodd y BGC arolwg ar-lein i asesu effaith Covid-19 ar ein cymunedau. Dywedodd 61% o'r ymatebwyr eu bod yn gosod mwy o werth ar fannau gwyrdd hygyrch yn ystod y cyfnod clo. Dywedodd 61% eu bod yn pryderu'n fwy/yn fwy ymwybodol o fyd natur, ac roedd 23% wedi newid eu hymddygiad er mwyn gofalu'n fwy am yr amgylchedd.

Yn ogystal â darparu deunyddiau crai ar gyfer gweithgynhyrchu, mae ein treftadaeth naturiol a diwylliannol yn darparu llawer o gyfleoedd eraill ar gyfer swyddi, yn arbennig yn y sector twristiaeth. Mae CNPT yn adnabyddus am ei rhaeadrau, ei pharciau gwledig, glan y môr a gweithgareddau hamdden fel gweryslla moethus a beicio mynydd. Mae hygyrchedd yr adnoddau hyn ar draws y Fwrdeistref Sirol yn darparu cyfleoedd i wella iechyd a llesiant, er enghraifft trwy gerdded a gweithgareddau awyr agored eraill.

Gan gydnabod yr elfennau cyferbyniol hyn, datblygwyd brand lle newydd ar gyfer ymwelwyr â Chastell-nedd Port Talbot. Mae brand lle Calon Ddramatig Cymru yn adlewyrchu ein treftadaeth fel lle ar gyfer perfformwyr ac arloeswyr, ochr yn ochr â chyferbyniad unigryw tirweddau'r cymoedd a diwydiant, gwledig a threfol, harddwch a gwydnwch! Mae'r brand lle hefyd yn lleoli Castell-nedd Port Talbot yng nghanol de Cymru.

Seiliwyd cysyniad y brand hwn ar bedair colofn:

- Canolog – mae gan CNPT gysylltiadau da, yng nghanol De Cymru, a phellter cyfartal oddi wrth gyrchfannau ac atyniadau pwysig yn y rhanbarth (h.y. Bannau Brycheiniog, Sir Benfro, Caerdydd etc).
- Cyferbyniad – Mae ein diwydiant yn bodoli ochr yn ochr â thirluniau llonydd, hardd y cymoedd. Mae'r cyfuniad o'r gwledig a'r trefol, Cymraeg a Saesneg yn rhai o'r ffactorau sy'n creu cyferbyniad eithafol yn yr ardal.
- Creadigrwydd – Yr angerdd ynghylch perfformiad a chreadigrwydd sy'n ganolog i'n cymunedau. O gynrychiadau dramatig amatur i actorion a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae arloeswyr diwydiannol, dylunwyr ac artistiaid sydd ar y blaen yn eu meysydd i'w canfod yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Cymuned – yr ymdeimlad cynhenid o berthyn a geir yn ein cymunedau lleol.

Bydd brand lle Calon Ddramatig Cymru a'r gweithgareddau marchnata cysylltiedig yn ein helpu i herio canfyddiadau o Gastell-nedd Port Talbot sydd wedi dyddio ac yn galluogi ymwelwyr (a thrigolion) i weld yn gliriach y tirweddau a'r dreftadaeth rhyfeddol sy'n ein gwneud ni fel yr ydym ni.

NEWID YN YR HINSAWDD – TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL



Teimlir effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar draws cymdeithas, a bydd hynny'n cynnwys ein hasedau adeiledig a diriaethol o ran treftadaeth. Amlinellir y risgiau a'r cyfleoedd perthnasol yn nhrydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig (CCRA3).

Mae'r prif risgiau cyfredol i dreftadaeth ddiwylliannol yn ymwneud ag amrywiadau tywydd eithafol, gan gynnwys tymereddau sy'n codi (cyfnodau eithriadol o boeth neu danau), dyddodiad a llifogydd, prosesau arfordirol, a chanlyniadau anfwriadol mesurau lliniaru ac addasu i'r hinsawdd oddi mewn i'r sector treftadaeth ac ar draws sectorau eraill. Yn arbennig, mae safleoedd treftadaeth arfordirol yn wynebu bygythiad gan gyfuniad o beryglon; codiad yn lefel y môr sy'n arwain at fwy o lifogydd ac erydiad arfordirol; gan sbarduno newidiadau i gymeriad y tirlun a glawiad.

Ymhlith yr enghreifftiau o sut mae pwysau cysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithio ar asedau treftadaeth mae gormodedd o ddŵr ar safleoedd archaeolegol, problemau lleithder a dŵr yn treiddio i mewn i eiddo hanesyddol, newidiau yn lefelau dŵr daear yn effeithio ar erddi hanesyddol, rhywogaethau newydd o blâu yn bygwth tirluniau treftadaeth, difrod i asedau a achosir gan danau gwyllt a llifogydd a pheryglon gwres i gasgliadau ac archifau. Mae'n bwysig ein bod yn ymwybodol o'r risgiau hyn ac yn rhoi mesurau ataliol yn eu lle i ddiogelu ein hasedau treftadaeth lle gallwn ni. Fodd bynnag, mae'n anochel na fyddwn yn gallu achub ein holl asedau. Gallai fod angen i reoli risg safleoedd treftadaeth ddiwylliannol gynnwys ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau yr effeithir arnynt er mwyn derbyn y ffaith anochel y collir rhai safleoedd treftadaeth i beryglon y newid yn yr hinsawdd.


Er bod ein treftadaeth ddiwylliannol yn wynebu risg fawr yn sgîl y newid yn yr hinsawdd, mae rhai cyfleoedd posibl i dreftadaeth ddiwylliannol trwy effeithiau anuniongyrchol y newid yn yr hinsawdd, megis tymereddau'n codi yn arwain at fwy o ymwelwyr ac yn rhoi hwb i'r economi leol. Rhaid i ni gydnabod hefyd, fodd bynnag, y gall mwy o ymwelwyr arwain at erydu safleoedd treftadaeth.

YR IAITH GYMRAEG



Cynhyrchodd Menter Iaith broffil iaith o CNPT yn 2021, a dyna sydd wedi llywio'r asesiad hwn. Fe'i seiliwyd ar ystadegau Cyfrifiad 2011: Arolwg Defnydd Iaith 2013-15; Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2019-2020; ac arolwg Llywodraeth Cymru ar effaith Covid-19 ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned yn 2020. Bydd fersiwn wedi'i diweddarau yn cael ei phrosesu unwaith bydd data cyfrifiad 2021 ar gael.

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot 20,698 o siaradwyr Cymraeg, sef 15.3% o boblogaeth y sir. Mae mwyafrif helaeth y siaradwyr hyn ym mhen uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman, ac mae rhai cymunedau megis Gwaun-Cae-Gurwen, Cwmllynfell a Brynaman Isaf ymhlith y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.



Ar ddechrau'r 20fed Ganrif, roedd bron hanner poblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg ar hyd yr 20fed Ganrif i gyn lleied ag 18.7% yn 1991. Cododd hyn i 20.8% yn 2001, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion. Yng Nghymru, gwelwyd gostyngiad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Yng Nghastell-nedd Port Talbot bu gostyngiad hefyd, a gostyngiad sylweddol yn yr ardaloedd lle mae niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn uchel, sef Cwm Tawe a Dyffryn Aman

Mae pump o'r wyth ardal gymunedol yn CNPT yn cynnwys canran uwch o siaradwyr Cymraeg o gymharu â ffigur y fwrdeistref sirol, sef 15.3%.

Mewn rhai ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol mae'r iaith yn rhan hanfodol o wead y gymdeithas, ac mae lefelau uchel iawn o siaradwyr Cymraeg. Cadarnle'r iaith yw ardaloedd Dyffryn Aman a Chwm Tawe, ac mae ardal Pontardawe a Chwm Dulais hefyd yn cynnwys cymunedau lle mae mwy na chyfartaledd Cymru o'r trigolion yn siarad yr iaith. Y cymunedau hyn yn y Cymoedd yw'r rhai lle ceir y lefel uchaf o sgiliau Cymraeg, gyda chanran uchel o bobl yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r cymunedau Cymraeg eu hiaith traddodiadol hyn wedi gweld gostyngiad amlwg yng nghanran a nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011.

Mae'r Arolwg Poblogaeth Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth bob chwarter am allu'r ymatebwyr i siarad Cymraeg. Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon yr Arolwg Poblogaeth Cenedlaethol o allu pobl i siarad Cymraeg yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y Cyfrifiad.

Pobl 3 oed a throsodd yng Nghastell-nedd Port Talbot (2016-2020)					
	2016	2017	2018	2019	2020
Cyfanswm Poblogaeth	135,100	136,300	136,300	135,800	136,200
Gallu siarad Cymraeg	31,400	28,800	33,100	30,700	29,500
Methu siarad Cymraeg	103,500	107,600	103,100	105,100	106,500
% sy'n gallu siarad Cymraeg	23.3%	21.1%	24.3%	22.6%	21.7%
Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol					

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod yn dangos bod nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi parhau'n weddol gyson yn ystod y pum mlynedd diwethaf (o fewn 3.2%).

Mae addysg Gymraeg yn cael dylanwad cryf ar hyfywedd yr iaith trwy ysgolion Cymraeg a dosbarthiadau dysgu i oedolion. Mae addysg Gymraeg yn rhan hanfodol ac annatod o ddysgu yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae Cynllun Strategol drafft y Cyngor ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 (WESP) yn cydnabod bod iaith a diwylliant yn rhannau hollbwysig o hunaniaeth unigolyn ac yn manylu ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu cefnogi a datblygu ymhellach addysg Gymraeg mewn ysgolion ac yn y cymunedau ehangach.

Ar hyn o bryd yng Nghastell-nedd Port Talbot mae 50 o ysgolion cynradd, 3 ysgol ganol, 4 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig. O'r rhain, mae 9 ysgol gynradd Gymraeg, 1 ysgol ganol Gymraeg, ac 1 safle uwchradd Cymraeg.

Tabl 10: Niferoedd ar y Gofrestr yn Ysgolion cyfrwng Cymraeg CNPT yn 2016-20

Enw'r Ysgol	Nifer ar y Gofrestr		
	2016	2019	2020
YGG Blaendulais	102	104	107
YGG Castell-nedd	384	415	419
YGG Cwmllynfell	108	87	84
YGG Cwmnedd	175	125	150
YGG Gwaun-cae-gurwen	190	183	176
YGG Pontardawe	351	347	336
YGG Rhosafan	360	365	381
YGG Trebannws	118	102	101
YGG Tyle'r Ynn	239	226	230
Ygg Y Wern (CLOSEDCAU)	149	-	-
Ysgol Gymraeg Ystalfera Bro Dur (Primary)	-	159	157
Ysgol Gymraeg Ystalfera Bro Dur (North)	1046	1,000	938
Ysgol Gymraeg Ystalfera Bro Dur (South)	-	226	343
Ffynhonnell: Data o Adran Addysg Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot			

Dengys y data uchod fod y niferoedd mewn sawl ysgol wedi parhau'n weddol gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2016, roedd 3,222 o ddisgyblion yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot. Erbyn 2020, roedd y nifer hwn wedi codi i 3,422, cynnydd o 200 o blant, neu 6%. Wrth edrych ar ddarlun llawn addysg ar draws y sir, fodd bynnag, yn 2016 roedd 15.5% o blant yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2020 roedd hyn wedi codi i 16.1%. Mae hyn yn arwydd da o newid yn agweddau rhieni at addysg Gymraeg, ac mae'r Fenter yn gobeithio gweld ysgol gynradd Gymraeg arall yn agor yn y sir i gefnogi safle uwchradd newydd Bro Dur. Gyda'r campws newydd yn Ysgol Bro Dur, rhagwelir y bydd mwy o blant yn parhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a dylai hynny yn ei dro sbarduno diddordeb mewn addysg gynradd. Ar hyn o bryd mae'r safle deheuol yn addysgu hyd at flwyddyn 10 yn unig.

Mae Ysgol Ystalyfera Bro Dur yn ddarparwr Chweched dosbarth, felly mae nifer o ddisgyblion yn astudio addysg ôl-16 yno. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth honno ar gael ar y safle Gogleddol yn unig, yn Ystalyfera. Cynigir darpariaeth Addysg Bellach hefyd gan Grŵp Colegau CCNPT.

Canolfan Ranbarthol Dysgu Cymraeg Bae Abertawe sy'n arwain yr holl ddarpariaeth dysgu Cymraeg ôl-16 yn y gymuned yn yr ardal. Mae'n gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau megis darparwyr, ysgolion a cholegau, y Mentrau, a sefydliadau Cymraeg a Chymreig i gynnig dewis eang a phrofiadau dysgu deinamig, hyblyg a chyffrous. Mae Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg yn cyhoeddi data ar y niferoedd cenedlaethol yma. At ei gilydd, rhwng 2017-18 a 2018-19, roedd cynnydd yn nifer y cyfleoedd dysgu.

Yn ôl Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Castell-nedd Port Talbot:

"Mae addysg Gymraeg yn rhan hanfodol ac annatod o'r dysgu a gynigir yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rydym ni'n credu y dylai pob plentyn elwa o'r cyfle i ddysgu, gwerthfawrogi a deall eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r awdurdod yn ategu'r egwyddor hon trwy sicrhau mynediad cyffredinol i'r ddarpariaeth hon. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn cydnabod bod iaith a diwylliant yn rhannau allweddol o hunaniaeth unigolyn, ac mae'n ymroddedig i hybu a dathlu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws pob cyfnod a sector."

CHWARAEON A GWEITHGAREDDAU CORFFOROL



Mae chwaraeon yn rhan fawr o'n diwylliant a'n treftadaeth yn CNPT. Mae ein clybiau rygbi a pêl-droed yn parhau i ffynnu, ac yn ogystal â bod yn ganolfannau chwaraeon, maen nhw'n aml yn ganolbwyntiau cymunedol, sy'n darparu adloniant ac yn gweithredu fel mannau cyfarfod.

Mae Traeth Aberafan wedi bod yn safle syrffio rhagorol erioed, ac mae'n boblogaidd gyda phobl leol ac eraill sy'n teithio ymhellach. Mae hyn wedi ehangu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda nifer o ysgolion syrffio yn gweithredu ar y traeth, yn darparu gwersi ac yn llogi cyfarpar. Bellach mae sawl grŵp yn cwrdd yn rheolaidd ar lan y môr i gael trochfa oer, arfer sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae'r cysylltiad rhwng llesiant meddyliol a gweithgarwch corfforol wedi dod yn fwy amlwg, yn rhannol oherwydd y cyfnodau clo hir yr ydym wedi'u hwynebu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydym hefyd wedi gweld sesiynau yoga awyr agored yn cael eu cynnal ar ein traeth, gyda bron 100 o bobl yn cymryd rhan ar y tro!

Roedd gweithgarwch a iechyd corff a meddwl yn bwysig i bob grŵp oed a fu'n cymryd rhan yn yr ymgyrch Dewch i Sgwrsio. Roedd pobl iau rywfaint yn fwy tebygol o sôn am faterion fel gweithgareddau a chyfleusterau hamdden (gan gynnwys rhai wedi'u bwriadu i blant), a chymdeithasu, tra bod materion iechyd a llesiant corff a meddwl yn bwysig i'r grŵp oedran 50+.

AROLYGN CHWARAEON CYMRU



Cynhaliwyd Arolwg Chwaraeon Ysgol diweddaraf Chwaraeon Cymru yn 2018. Bu 118,893 o ddisgyblion 3-11 oed yn cymryd rhan yn yr arolwg, a chwblhaodd 1,055 o athrawon holiadur darpariaeth yr Arolwg Chwaraeon Ysgol. Roedd hyn yn gynydd o gymharu â'r niferoedd yn 2015 – a hwn o hyd yw'r arolwg mwyaf o bobl ifanc a chwaraeon yn y Deyrnas Unedig. Er bod canlyniadau'r arolwg yn 2015 wedi dangos cynnydd yn y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgaredd corfforol dair gwaith neu fwy yr wythnos, nid oedd hynny wedi newid yn 2018 – roedd yn dal yn 48%.

Yn 2018, canran y plant a'r bobl ifanc (3-11 oed) oedd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd o leiaf deirgwaith yr wythnos yn CNPT oedd 49.6% - sy'n uwch na'r ffigur cenedlaethol o 48% ond wedi gostwng rhywfaint o ffigur o 54.7% yn 2015.

Dywedodd 94.8% o'r plant a'r bobl ifanc yn CNPT eu bod yn mwynhau eu gwersi Addysg Gorfforol. Y gamp fwyaf poblogaidd roedd plant a phobl ifanc yn ei chwarae mewn clybiau cymunedol yn CNPT oedd pêl-droed, gyda nofio a rygbi yn dilyn yn agos.

Teimlai 37.6% yn 'hyderus iawn' ynghylch rhoi cynnig ar gamp newydd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 34.9%. Bu Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda Savanta ComRes i gael cipolwg ar arferion gweithgarwch ac ymddygiad y genedl yn ystod pandemig y Coronafeirws. Cynhaliwyd arolygon ar 4 adeg wahanol yn ystod y pandemig.

Dyma rai o ganfyddiadau'r arolygon:

- Cadwodd cyfranogiad cyffredinol mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yng Nghymru at yr un lefelau yn fras yn ystod y cyfnod clo, er nad oedd chwaraeon strwythuredig yn cael eu cynnal.
- Roedd tuedd i blant, oedolion hŷn (55+) a'r rhai o gefndir sosio-economaidd is gymryd rhan mewn llai o chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn ystod y cyfnod clo nag yn flaenorol.
- Fel arfer mae rhyw 10% o'r oedolion yn y boblogaeth yn gwirfoddoli mewn chwaraeon bob blwyddyn, ond yn ystod y cyfnod clo dywedodd 30% eu bod nhw am wirfoddoli mewn chwaraeon.
- Pan ailagorodd cyfleusterau hamdden, dywedodd y rhan fwyaf o bobl oedd yn mynd iddynt eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn eu defnyddio.

Mae'r Cynllun Atgyfeiriadau Ymarfer Corff Cenedlaethol yn cael ei ariannu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn rhan o'r Awdurdod Lleol. Ceir atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer unrhyw un dros 17 oed sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys. Materion meddygol nodweddiadol fydd yn derbyn sylw yw rheoli pwysau, materion iechyd meddwl, problemau gyda'r cymalau a'r cyhyrau, problemau anadlu a'r galon, a chynigir 16 wythnos o sesiynau ymarfer corff gyda chefnogaeth mewn campfeydd a chanolfannau cymunedol lleol.

Mae galw mawr am y gwasanaeth, a chafwyd 1471 o atgyfeiriadau yn 2018/2019, a 1242 yn ystod 2019/2020 nes iddo gael ei atal oherwydd y pandemig. Mae Castell-nedd Port Talbot yn gartref i nifer o gyfleusterau chwaraeon a hamdden sy'n darparu ar gyfer pob oed. O lwybrau beicio mynydd sydd ymhlith y goreuon yn y byd yng Nghwm Afan, i'r golff antur, y parc sglefrio, y pwll chwarae aqua splash a'r maes chwarae antur ar lan y môr yn Aberafan, cyfleoedd i farchogaeth yn Nyffryn Aman ac amrywiaeth o lwybrau cerdded trwy goetir, parciau ac ar hyd camlesi.

Mae Celtic Leisure wedi rheoli nifer o ganolfannau hamdden ar draws y Fwrdeistref Sirol ers 2003. Maen nhw'n darparu ystod eang o wasanaethau, yn cynnwys dosbarthiadau ffitrwydd, ystafelloedd ffitrwydd a iechyd, ystafelloedd pwysau, pyllau nofio, chwaraeon racedi a chwaraeon timau awyr agored sy'n addas i bob oed a gallu. Cytunwyd yn ddiweddar y bydd Celtic Leisure yn dod yn ôl o dan reolaeth yr awdurdod lleol.

- Canolfan Hamdden a Ffitrwydd Aberafan.
- Canolfan Hamdden Castell-nedd.

- Canolfan Chwaraeon Castell-nedd.
- Canolfan Hamdden Pontardawe.

- Pwll Nofio Pontardawe.
- Canolfan Hamdden Bro Nedd.

DARPARIAETH CHWARAE I BLANT A PHOBL IFANC



Mae chwarae'n bwysig i iechyd, hapusrwydd a llesiant pob plentyn. Mae Asesiad Digonolrwydd Chwarae Castell-nedd Port Talbot yn ystyried safon a nifer y cyfleoedd i blant a phobl ifanc 0-17 oed chwarae, a hefyd y ffactorau hynny a all effeithio ar allu plant i gael mynediad i'r cyfleoedd hynny, fel traffig, cymuned, ac argaeledd darpariaeth.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae nifer o fannau chwarae dynodedig:

- 156 o barciau (sy'n cynnwys 2 barc gwledig, 1 pwll padlo, 11 cysgodfan i ardegwyr a 142 o barciau a gerddi a manau chwarae trefol ac addurniadol) sy'n cynnwys cyfleusterau fel lleoedd chwarae i blant, lawntiau bowlïo, meysydd chwarae, rampiau sglefyrrddio ac ardaloedd agored.
- 44 o Ardaloedd Chwaraeon Aml-ddefnydd (MUGA's) ac ardaloedd chwaraeon olwynion – mae'r nifer hwn bron wedi dyblu ers yr asesiad llesiant diwethaf.
- 70 o gyfleusterau chwaraeon awyr agored, y mae 69 ohonynt yn eiddo i ysgolion.

Ar ben hynny mae nifer o fannau sydd â photensial o safbwynt chwarae:

- 509 o fannau gwyrdd amwynder (manau anffurfiol, meysydd pentrefi).
- 2,056 o fannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol (tir comin, glaswelltir/prysgwydd, coetir).

Gwelwyd cynnydd ym mhob un o'r rhain ers i'r asesiad diwethaf gael ei gynnal. Mae 88% o'r lle chwarae awyr agored yng Nghastell-nedd Port Talbot yn hygyrch i blant o bob gallu, ond dim ond un parc (Y Gnoll) sy'n cynnwys cyfarpar yn benodol ar gyfer plant ag anableddau.

Mae meysydd chwarae artiffisial hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol i sicrhau bod pobl yn actif. Mae dau faes chwarae 3G maint llawn yng Nghastell-nedd Port Talbot (yn achos 3G mae'r 'gwellt' unigol ffug yn cael eu cynnal gan haen waelodol denau o dywod, wedi'i mewnlenni â briwsion rwber). Hefyd mae pedwar maes artiffisial a lanwyd â thywod, a'u gwisgo neu eu llenwi â dŵr, a 10 llain artiffisial lai neu gyrtiau carped/5-bob-ochr.

BLE YDYM NI NAWR



Nododd Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2019 fod cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth ar gael fel a ganlyn:

- 56 o warchodwyr plant
- 26 o ganolfannau gofal dydd llawn
- 21 o glybiau ieuencid
- 12 o glybiau gwyliau
- 13 o glybiau ar ôl ysgol
- 5 o glybiau brecwast
- 4 o ddarparwyr di-fwlch
- 2 creche

HERIAU



Nododd yr asesiad nifer o heriau a bylchau sy'n effeithio ar fynediad plant at chwarae:

Bylchau Daearyddol	<ul style="list-style-type: none">● Canfyddiad bod darpariaeth annigonol mewn ardaloedd gwledig.● Mae 2 ward heb ddarpariaeth gofal plant gofrestredig.● Mae 22 o wardiau heb ddarpariaeth o ran gwasanaeth ieuencid.● Mae sgôr chwarae cyfartalog Cwm Afan, Dyffryn Aman, Cwm Dulais a Chwm Tawe yn is na'r cyfartaledd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn awgrymu ei fod yn anoddach cael hyd i ddarpariaeth awyr agored o safon mewn ardaloedd gwledig.
Bylchau Anghenion Amrywiol	<ul style="list-style-type: none">● Dim ond un lle chwarae dynodedig sydd â chyfarpar i blant ag anableddau.● Argaeledd cyfyngedig cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth i blant ag anghenion amrywiol.
Bylchau Mynediad	<ul style="list-style-type: none">● Nid yw pob plentyn, person ifanc a theulu yn ymwybodol o'r cyfleoedd chwarae yn lleol.● Mae canfyddiad ei fod yn anodd cael mynediad i ardaloedd a chyfleusterau chwarae.● Mae awgrym nad yw trafndiaeth gyhoeddus yn cefnogi mynediad i chwarae.● Dim ond nifer cyfyngedig o'r manau chwarae dynodedig sydd wedi'u goleuo, sy'n lleihau'r amser pan fyddant ar gael i chwarae.
Bylchau Oedran	<ul style="list-style-type: none">● Nid yw lefel y ddarpariaeth i blant dros 13 oed yn adlewyrchu'r gyfran honno o'r boblogaeth. Efallai na fydd pobl ifanc yr oed yma "eisiau mynd i'r parc, ond mae angen pethau i'w gwneud arnon ni."
Bylchau Math	<ul style="list-style-type: none">● Diffyg cynlluniau chwarae fforddiadwy yn yr haf.● Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth yn benodol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau.● Mae gwerth cyffredinol chwarae a gwerth cyfartalog chwarae wedi gostwng ers yr asesiad diwethaf.
Bylchau Gweithlu	<ul style="list-style-type: none">● Mae darparwyr gofal plant, ysgolion a gwasanaethau ieuencid yn allweddol i'r gweithlu chwarae, ond nid ydynt bob amser yn gweld hynny eu hunain.● Mae darparwyr yn rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant a datblygiad gorfodol, a nifer cyfyngedig sy'n manteisio ar raglenni ehangach.
Noder:- Mae'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae i gael ei ddiweddarau eleni (2022)	

GWIRFODDOLI



Yng Nghymru, amcangyfrifir bod rhyw 938,000 o wirfoddolwyr yn cyfrannu cyfanswm o 145 miliwn o oriau o'u hamser bob blwyddyn. Amcangyfrifir bod gwerth amser gwirfoddolwyr yn rhyw £1.7 biliwn. Yn 2017-18, amcangyfrifwyd bod hyn yn rhyw 3.1% o gynnyrch domestig gros Cymru.

Mae gwirfoddoli hefyd yn chwarae rhan bwysig trwy gynhyrchu mathau eraill o werth na ellir eu diffinio'n ariannol nac mewn termau rhifadwy hwylus, megis: cydlyniant cymdeithasol, cynhwysiad, economi, adfywio, a datblygu cyfalaf cymdeithasol.

Mae'r pandemig wedi cael effaith ar wirfoddoli yn CNPT, gyda nifer digynsail o bobl yn cynnig eu hunain i roi cefnogaeth yn ystod y don gyntaf.

Mae Platform Digidol Gwirfoddoli Cymru yn cynnwys 40,657 o wirfoddolwyr cofrestredig (Rhagfyr 2021) ac mae 27,404 o'r rheiny wedi cofrestru ers 1 Mawrth 2020. Cofrestrodd 17,667 rhwng 01/03/2020 a 31/05/2020, yn ystod yr ymgyrch i sicrhau gwirfoddolwyr, a gwelwyd cynnydd arall llai ym mis Ionawr 2021, eto yn sgîl diddordeb y cyfryngau.

At ei gilydd mae 4.9% o'r holl gyfleoedd ar y safle yn cwmpasu treftadaeth, y celfyddydau, diwylliant a 2.8% ar gyfer chwaraeon a hamdden. Fodd bynnag, rydym ni'n gwybod bod y rhain yn tueddu i fod yn gyfleoedd gwirfoddoli mwy ffurfiol, yn hytrach na'r gwirfoddoli anffurfiol sy'n digwydd trwy grwpiau chwaraeon a grwpiau ffydd.

Gyda chefnogaeth gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (CVS) Castell-nedd Port Talbot, sefydlodd Cyngor CNPT wasanaeth Iach a Diogel CNPT yn ystod y pandemig, yn ymateb dyngarol ar gais Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhai Eithriadol Glinigol Fregus yn cael eu gwarchod rhag y Coronafeirws. Cofrestrodd bron 700 o wirfoddolwyr i gynnig cefnogaeth er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael cymorth gyda siopa, casglu presgripsiynau a galwadau i wirio'u llesiant.

Datblygwyd Partneriaeth Iach a Diogel CNPT i baratoi cynlluniau wrth gefn ar gyfer tonnau pellach o'r Coronafeirws a fyddai'n dod. Bu CVS Castell-nedd Port Talbot yn arwain y gwaith o fapio gwirfoddolwyr ar draws Castell-nedd Port Talbot er mwyn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn gallu ymateb petai angen. Datblygodd CVS Castell-nedd Port Talbot hefyd raglen hyfforddi 20 wythnos, y bu dros 90 o wirfoddolwyr yn ei mynychu. Ymhlith y pynciau roedd yr ymateb i COVID-19, diogelu, llesiant, helpu pobl i siopa ar-lein ac ymwybyddiaeth o brofedigaeth.

Mae 80 o wirfoddolwyr Iach a Diogel yn dal ar gael i gefnogi trigolion sydd angen hynny, ynghyd â chymorth cyfeillio ar gyfer y rhai sydd wedi'u hynysu'n gyfangwbl o'u cymunedau ac yn teimlo'n eithriadol o unig. Mae'r cymorth cyfeillio wedi cael ei ddarparu dros y ffôn ac ar garreg y drws yn ystod y cyfyngiadau, a bydd yn dychwelyd at ymweliadau cartref pan fydd hynny'n ddiogel. Mae hyfforddiant llawn ar gyfer gwirfoddolwyr i gynorthwyo gydag ymweliadau cartref yn cael ei drefnu ar hyn o bryd, yn barod ar gyfer hyn.

Yn ystod Ionawr a Mawrth 2021, cafodd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg grant gan Lywodraeth Cymru i edrych ar sut mae modd cynnal gwirfoddoli ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot wedi'r pandemig. O ganlyniad, mae nifer o adnoddau gwirfoddoli wedi cael eu datblygu, gan gynnwys pecyn offer wedi'i fwriadu ar gyfer grwpiau Cyfeillion Parciau ac un arall ynghylch Adferiad Gwyrdd.

Mae CVS Castell-nedd Port Talbot yn hyrwyddo adnoddau Cymorth Trydydd Sector Cymru sy'n cefnogi sefydliadau i ddenu gwirfoddolwyr sy'n medru'r Gymraeg a sut mae hyrwyddo'r Gymraeg trwy wirfoddoli. Rydym ni'n gwybod bod rhai unigolion yn dewis gwirfoddoli mewn sefydliadau Cymraeg er mwyn gallu ymarfer/gwella eu sgiliau siarad Cymraeg eu hunain.

Mae llawer o asedau cymunedol, yn arbennig yng nghymoedd CNPT, yn awr yng ngofal gwirfoddolwyr. Mae perygl y bydd y trefniadau hyn yn mynd yn anghynaliadwy, ac y bydd pobl yn methu parhau â'r lefel hon o gefnogaeth.

“Mae'n destun pryder i mi bod pob canolfan gymunedol, y pwll nofio, y gampfa, a'r llyfrgell, yn fentrau cymdeithasol. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddyn nhw frwydro am gyllid i'w cadw ar agor ac i gynnal yr adeilad. A'u bod nhw'n disgwyl i wirfoddolwyr fod â gofal am y canolfannau hyn”
(Cyfweiliad manwl Cwm Afan)

CYMUNED



Mae modd mynegi llesiant diwylliannol mewn cymunedau trwy nifer o nodweddion, gan gynnwys cyfranogiad cymunedol mewn digwyddiadau, defodau a rennir, gwirfoddoli a threftadaeth, yn ogystal â'r rhyngweithio â'r amgylchedd adeiledig. Mae modd mynegi a deall llawer o'r pethau hyn trwy rôl asedau diwylliannol anniriaethol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau ac arferion traddodiadol, iaith a mynegiant diwylliannol, a gwybodaeth a sgiliau diwylliannol sy'n rhan bwysig o fywydau pobl.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru

- Yn 2018 roedd 55% o bobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch, mae hyn fymryn yn uwch na ffigur Cymru, sef 52%
- Dim ond 17% oedd yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau oedd yn effeithio ar eu hardal leol

Teimlai dros hanner yr ymatebwyr 'Dewch i Sgwrsio' (54%) fod mwy o ysbryd cymunedol yn eu cymdogaeth agos o ganlyniad i'r pandemig, tra bod chwarter arall (25%) yn teimlo ei fod wedi aros yr un fath. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o sylwi ar effaith gadarnhaol yn eu cymdogaeth agos nag ar draws ardal ehangach (wedi dweud hynny, roedd mwy na thraean – 36% - yn teimlo bod ysbryd cymunedol wedi gwella ar draws yr ardal leol ehangach, a mwy na chwarter – 28% - yn teimlo ei fod wedi gwella ar draws y fwrdeistref sirol gyfan).

ROEDD RHAI TRIGOLION YN CEFNOGI DULL GWEITHREDU OEDD YN CAEL EI ARWAIN YN FWY GAN Y GYMUNED:

“Rwy’n dymuno byddai pobl yn gofalu am ‘eu patshyn nhw’ yn fwy ac yn derbyn cyfrifoldeb am sut mae pethau’n edrych – yn hytrach nag aros ‘i’r cyngor’ ddatrys pethau... gadewch i ni werthfawrogi beth sydd gennym ni a gwneud yn fawr ohono”

Pan ofynnwyd i’r ymatebwyr nodi pethau y gellid eu gwneud i wella bywyd i’r trigolion, roedd y themâu mwyaf cyffredin yn cynnwys: mwy o gyllid i’r gymuned, e.e. i gefnogi digwyddiadau/prosiectau cymunedol; strydoedd glanach ac mewn cyflwr gwell, mannau gwyrdd, traethau etc; mesurau i fynd i’r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; buddsoddi mewn cyfleusterau awyr agored a/neu ddarparu mwy ohonynt, neu rai rhatach, a mwy o gefnogaeth i bobl ifanc.

Fel rhan o’r ymgyrch Dewch i Sgwrsio, cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws ar-lein a chyfweliadau manwl gyda 30 o drigolion Cwm Afan, Dyffryn Aman, a chymoedd Dulais, Nedd a Thawe. At ei gilydd roedd y cyfranogwyr yn siarad yn gadarnhaol iawn am eu hardaloedd lleol. Dywedid yn gyffredinol bod ysbryd cymunedol cryf ar draws holl gymoedd Castell-nedd Port Talbot, gyda’r trigolion yn gofalu am ei gilydd, a llawer o weithgareddau dan arweiniad y gymuned yn cael eu darparu, megis digwyddiadau Nadolig, carnifalau, a sesiynau codi arian mewn neuaddau a chlybiau lleol, dan arweiniad y gymuned. Soniodd mwyafrif y cyfranogwyr hefyd yn wresog am harddwch naturiol yr ardal, gan ganmol Traeth Aberafan, Bannau Brycheiniog, coedwigoedd lleol, a pharciau cyhoeddus. Hefyd cafodd ‘Cymreictod’ yr ardal ei ddathlu gan nifer bach o’r cyfranogwyr. Hefyd roedd llawer o bethau byddai’r cyfranogwyr yn hoffi eu newid am eu cymunedau, yn fwyaf cyffredin darparu gwell cysylltiadau trafniadaeth a chefnogaeth iechyd meddwl. Ymhlith y gwelliannau eraill a ddymunid roedd lleihau’r ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, diweithdra, ac amddifadedd cyffredinol.

Yn aml byddwn ni’n meddwl am gymunedau fel ardaloedd daearyddol. Dyna sut rydym ni wedi diffinio ein hardaloedd cymunedol at ddiben asesu llesiant yn CNPT. Fodd bynnag, mae mathau eraill o gymuned y gellir dweud bod pobl yn perthyn iddynt, gan gynnwys is-grwpiau oddi mewn i boblogaethau ar sail cyflogaeth, nodweddion a rennir neu ddiddordebau. Bydd pob un o’r rhain yn cael effaith ar lesiant unigolion.

Mae’n ddiddorol nodi sut mae grwpiau cymunedol wedi cael hyd i ffyrdd newydd o gadw mewn cysylltiad yn ystod y pandemig. Mae’r cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn offeryn cyfathrebu anferth, ac yn un o’r ffyrdd cynyddol mae cymunedau’n eu defnyddio i gadw mewn cysylltiad. Mae hyd yn oed y rhai lleiaf amharod i gychwyn arni wedi cael eu darbwylo i ymuno yn ystod cyfnod a fu’n adeg ynysig ac unig i lawer. Soniodd un grŵp côr meibion, oedd yn methu cwrdd wyneb yn wyneb am gyfnod hir, sut gwnaethon nhw ddarganfod ‘WhatsApp’ fel dull o gadw mewn cysylltiad fel grŵp, a bod hynny’n agoriad llygad i lawer o’r aelodau sydd wedi mwynhau’r sgwrsio a’r rhannu jôcs ac ati yn fawr iawn. Gwnaeth un aelod o’r grŵp y sylw fod y cyfnod clo wedi gwneud iddo sylweddoli bod bod yn rhan o’r côr yn llawer mwy na hobi, yn rhan bwysig o’i integreiddio cymdeithasol ac yn hanfodol i’w lesiant.

Cafodd mwyafrif o'r rhai sy'n byw yng Nghymru eu geni yng Nghymru; mae'r nifer hwn yn gostwng yn araf dros amser, ac mae hynny'n debygol o gael effaith ar ddiwylliant yn lleol. Yn CNPT, gwelwyd gostyngiad yng nghanran y bobl a aned yng Nghymru, o 90% yn 2001 i 87% yn 2011. Disgwylir y bydd gostyngiad pellach i'w weld yng Nghyfrifiad 2021.

Mae'n bwysig nodi, wrth i ni ddathlu ein diwylliant a'n treftadaeth yma yn CNPT, ein bod ni'n dod yn fwyfwy amrywiol, a bod ein diwylliant a'n traddodiadau lleol yn cael eu cyfoethogi o ganlyniad.

Cynhaliwyd proffil cymunedol o gymunedau Du ac Ethnig Lleiafrifol yn 2018 gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol CNPT, Cymdeithas y Gymuned BME a CBSCNPT. Dyma rai o'r canfyddiadau.

- Cyfanswm poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yw 139,812. Mae 3763 o unigolion o gefndir BME, sef 2.7% o'r boblogaeth gyfan.
- Ar lefel y ward, mae'r ganran o'r boblogaeth gyfan yn adlewyrchu'r hyn a welir ar draws y sir, gydag ambell eithriad amlwg:
- Ward Port Talbot – mae 7% o'r boblogaeth yn dod o gefndir BME (396 o bobl allan o 5641)
- Aberafan – mae 5.3% o'r boblogaeth yn dod o gefndir BME
- (287 o bobl allan o 5452)
- Dwyrain Sandfields – mae 4% o'r boblogaeth yn dod o gefndir BME (276 o bobl allan o 6895)
- Godre'r graig – mae 1% o'r boblogaeth yn dod o gefndir BME (16 o bobl allan o 1644)
- Glyncorrwg – mae 0.6% o'r boblogaeth yn dod o gefndir BME (7 o bobl allan o 1096)

Fel rhan o'r proffil, cynhaliwyd arolwg ymhlith aelodau'r gymuned BME. Ymatebodd 116 o bobl eu bod yn hapus yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot, a 12 o bobl nad oeddent yn hapus yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae 59 o wahanol ieithoedd a thafodieithoedd yn cael eu siarad mewn ysgolion ar draws Castell-nedd Port Talbot, ac mae 722 o ddisgyblion allan o 20764 yn siarad ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf.

CREFYDD

Yn CNPT gwelwyd gostyngiad yng nghanran y bobl oedd yn nodi eu bod yn Gristnogion, o 72% yn 2001 i 58% yn 2011. Yn ystod yr un cyfnod roedd cynnydd amlwg hefyd yn nifer y bobl oedd yn datgan eu bod 'heb grefydd', o 19% yn 2001 i 34% yn 2011. Mae hyn yn debyg i'r darlun ar draws Cymru. Bydd yn ddiddorol gweld beth sydd wedi newid yn CNPT pan gaiff gwybodaeth Cyfrifiad 2021 ei rhyddhau, ond yn anecdotaidd rydym ni'n ymwybodol bod y fwrdeistref yn dod yn fwy amrywiol o ran crefydd.

SUT BYDD TUEDDIADAU'R DYFODOL YN EFFEITHIO AR LESIANT DIWYLLIANNOL?



Y CELFYDDYDAU A THREFTADAETH

Mae cyfranogiad yn y Celfyddydau wedi cael ei daro'n galed gan y pandemig, ac mae ansicrwydd ynghylch pryd bydd hyn yn dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig, os bydd hynny'n digwydd, oherwydd yr effaith ar hyder y cyhoedd.

Oherwydd toriadau i'r gyllideb yn ystod y degawd diwethaf, mae rhai asedau mewn perygl o golli tir. Mae llawer o ganolbwytiau cymunedol bellach yng ngofal gwirfoddolwyr ac yn dibynnu ar arian grant. Mae perygl y gallai hynny fod yn anghynaliadwy.

Mae'n gadarnhaol bod pobl yn teimlo mor gryf ynghylch diogelu ein treftadaeth a gwneud defnydd gwell o'n hamgylchedd naturiol. Ymddengys bod y cysylltiad rhwng y pethau hyn a'n llesiant yn gliriach nag erioed. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydnabod bod ein hamgylchedd naturiol o dan fygythiad, a chymryd camau i'w ddiogelu a gwyrddroi'r difrod a wnaed.

YR IAITH GYMRAEG



Er ein bod ni'n ymwybodol bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref wedi gostwng, mae'n galonogol bod cynnydd yn nifer y plant sy'n mynd i ysgolion Cymraeg, a bod mwy o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn cael eu darparu'n gyffredinol. Mae adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yng Nghymru yn rhagfynegi cynnydd ymhlith siaradwyr Cymraeg ledled Cymru yn ystod y degawd nesaf, fel y nodir gan yr Arolwg Poblogaeth Blyneddol. Mae'n rhaid i ni barhau i fonitro'r sefyllfa a darparu mwy o gyfleoedd i bobl yn CNPT siarad Cymraeg.

CYMUNEDAU



Mae cymunedau wedi cyd-dynnu ac wedi helpu ei gilydd yn ystod y pandemig, a gwelwyd ysbryd cymunedol yn cael ei adfywio. Mae'n amlwg o ganfyddiadau adroddiad Dewch i Sgwrsio bod y trigolion wedi teimlo'n gadarnhaol iawn am yr adfywiad hwn, ac y bydden nhw'n hoffi gweld mwy o hyn yn y dyfodol. Mae angen i ni gael hyd i ffyrdd o gefnogi ein cymunedau i ymwneud â ffurfio'u dyfodol eu hunain.



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

ASESIAD LLESIANT



Y BENNOD DIWYLLIANNOL